



**CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN
COFNODION CYFARFOD CYLLIDEB LLAWN
NOS IAU 13^{eg} IONAWR 2011 AM 7.30PM
FESTRI CAPEL SHILOH LLANBEDR PONT STEFFAN**

1. CROESO'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd sef y Cyng. Maer Rob Phillips bawb i'r Cyfarfod. Eglurodd mai pwrpas y cyfarfod oedd pennu maint y presept (y dreth leol a godir gan Gyngor y Dref) am y flwyddyn ariannol Ebrill 2011-Mawrth 2012.

YN BRESENNOL

Maer R.Phillips; Dirprwy-Faer H.Harris,
Cynghorwyr Tref: C. Barton, M Davies-Evans; L Mason-George;
K. Ramaya, S.Walters, C.Thomas, D.Wilson & D.Williams.

2. YMDDIHEURIADAU

Ymddiheurodd y Cyng. J. Davies ac A.Carter, am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim.

4. Y PRESEPT AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL

Trafodwyd yn fanwl, yr Adroddiad Gyllideb (ynghlwm). Gan fod y cynghorwyr yn teimlo y gellid cwrdd â'r holl alwadau o fewn terfynau'r gyllideb a oedd wedi ei pharatoi penderfynwyd trwy bleidlais unfrydol i gadw'r presept heb ei newid am y 7fed flwyddyn yn olynol sef £43,220 neu £48.60 y flwyddyn sef 93 ceiniog yr wythnos i drethdalwr band D, sef gostyngiad oherwydd chywddiant (3%). Mae'r ffigur yn ddigyfnewid ond mae gwerth y ffigur wedi gostwng.

Mae'r ffaith nad oes cynnydd wedi bod yn y presept am flynyddoedd (ond yn hytrach gostyngiad wrth ystyried chwyddiant), yn adlewyrchiad o'r ffordd effeithiol y mae aelodau wedi gofalu am arian y cyhoedd. Mae'r gostyngiad yn nhaliadau Camerau Teledu Cylch Cyfyng (CTCC) wedi bod yn allweddol hefyd i alluogi'r Cyngor Tref i fod yn stiwardiaid effeithiol o'u harian. Ystyriwyd maint y swm cyfalaf oedd wrth gefn (oddeutu £140,000 @ 31.03.2011) ac adroddwyd y gallai'r Cyngor Tref wynebu herion ariannol yn ystod y dyfodol gan fydd Prydain yn debygol o ddioddef o ostyngiadau mewn gwario ar gyfer y cyhoedd, ac ar hyn o bryd y mae dirwasgiad yn yr economi. Byddai'r arian wrth gefn yn cynnig cyfle i'r Cyngor Tref i ymgymryd â phrosiectau sydd angen cyllid ychwanegol i'r hyn a godir dan law'r Praesept.

5. GOHEBIAETH

5.1 Cau Ffordd Dros Dro: Mountwalk CSC:17-31 Ionawr: bydd yn hanfodol cau rhan o'r briffordd am y cyfnod a nodir. Mae'r cau yn anghenrheidiol er mwyn gwarantu diogelwch y cyhoedd am y cyfnod hwn.

5.2 Cystadleuaeth Chwaraeon Rhwng Cymunedau: CSC: nodwyd er gwybodaeth.

6. CYNLLUNIO

- 6.1 CYNNIG:** Cartref symudol ar gyfer amaethwyr: Tir ar Fferm Lletywpa, Heol Llanfair, Llambod. Rhif y Cais: A100559: **Dyfarniad: Dim Gwrthwynebiad.**
- 6.2 CYNNIG:** ail wampio ystafelloedd mewnol presennol Banc HSBC a gwaredu â'r gist nos allanol: HSBC Sgwâr Harford, Llambod. Rhif y Cais: A101007: **Dyfarniad: Dim Gwrthwynebiad.**
- 6.3 CYNNIG:** cyfnewid arwyddion presennol am ffenest hysbysebu newydd: HSBC Sgwâr Harford, Llambod. Rhif y Cais: A101008AV: **Dyfarniad: Dim Gwrthwynebiad.**

Yn nhŷb y Gyng. Dorothy Williams roedd rhai aelodau o dan anfantais pan fyddai ceisiadau cynllunio'n cael eu harchwilio, derbyn sylwadau a'u dychwelyd i'r CSC rhwng cyfarfodydd gan gnewyllyn o'r CT. Cyflwynwyd y trefniant hwn gan y CT yn unol â dymuniadau'r CSC i anfon ateb yn ôl o fewn 14 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad.

Roedd aelodau na gyfrannwyd i'r ymateb yn cael eu hamddifadu, yn ei barn hi, o beidio â bod yn ymwbyddol o'r cais tan y Cyfarfod olynol.

- 6.4 Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-22:** Ymgynghori Ynghylch y Cynllun Adneuo Y Cyfnod Adneuo 2010: ateb i'w gyflwyno erbyn 17.02.2011.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.55pm.

- 7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: Nos Iau 27^{ain} Ionawr 2010 at 7.30pm, Neuadd yr Eglwys San Pedr.**

(Arwyddwyd
Cadeirydd/Dyddiad)_____